

# Coflyfr

## Y Cod Ymddygiad

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Rhifyn 12 Ebrill 2017

# Cynnwys

Cyflwyniad 1

Dim tystiolaeth o dor-amod 4

Nid oes angen gweithredu 6

Cyfeiriwyd at bwyllgor safonau 10

Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru 11

Mwy o Wybodaeth 12

# Cyflwyniad

Ar y cyfan, rydw i'n falch bod fy swyddfa wedi derbyn 14% yn llai o gwynion yng nghyswllt y cod eleni nag yn 2015/16. Credaf fod hyn yn sgil y ffaith bod cyflwyno penderfyniadau lleol ar gyfer cynghorau sir (cwynion lefel isel gan gynghorwyr yn erbyn cynghorwyr eraill yn cael eu cyfeirio at y Swyddog Monitro yn y lle cyntaf) wedi dechrau cael effaith o'r diwedd. Mae rhywfaint o dystiolaeth hefyd dros y 12 mis diwethaf bod y dull hwn wedi cael ei fabwysiadu gan gynghorau tref a chymuned sy'n ceisio datrys cwynion yn anffurfiol yn gyntaf cyn cyfeirio achosion at fy swyddfa i.

| **Canlyniad** | 2016/17 | 2016/17 |
|---|---|---|
| Achos wedi'i gau ar ôl ystyriaeth gychwynnol | 184 | 213 |
| Cwyn wedi'i thynnu'n ôl | 20 | 15 |
| Rhoddwyd y gorau i'r ymchwiliad | 10 | 10 |
| Ymchwiliad wedi'i gwblhau: Dim tystiolaeth o dorri'r cod | 12 | 11 |
| Ymchwiliad wedi'i gwblhau: Dim angen gweithredu | 16 | 10 |
| Ymchwiliad wedi'i gwblhau: Cyfeirio at y Pwyllgor Safonau | 5 | 3 |
| Ymchwiliad wedi'i gwblhau: Cyfeirio at y Panel Dyfarnu | 1 | 3 |
| **Cyfanswm y Canlyniadau - cwynion ynghylch y Cod Ymddygiad** | 248 | 265 |

O blith yr achosion rwyf wedi'u gweld, dim ond chwech gafodd eu cyfeirio naill ai at y Pwyllgor Safonau neu at Banel Dyfarnu Cymru.  Mae hyn yn dangos yn glir mai dim ond yr achosion mwyaf priodol sy'n cael eu cyfeirio, ac mae'n dangos bod ystyried budd y cyhoedd yn parhau i fod yn ffordd effeithiol o ddefnyddio 'synnwyr cyffredin er lles pawb'.

Er gwaethaf y gostyngiad yn nifer gyffredinol y cwynion a dderbyniodd fy swyddfa yng nghyswllt y cod, mae'r nifer sydd wedi cyrraedd ymchwiliad llawn wedi codi rhyw fymryn.   Fodd bynnag, mae cynnydd yn nifer yr achosion y rhoddwyd y gorau iddynt neu lle nad oes angen gweithredu yn cydbwyso hyn - tystiolaeth bellach o effeithiolrwydd prawf budd y cyhoedd ar bob cam o'r broses ymchwilio.

Ymhlith y newidiadau eraill eleni mae cyhoeddi'r canllawiau diweddaraf ar y Cod Ymddygiad i gynghorwyr yn seiliedig ar newidiadau i'r Cod Ymddygiad Enghreifftiol a luniwyd ym mis Ebrill 2016 a sefydlu Grŵp Cynghori'r Cod sydd â goruchwyliaeth ragweithiol dros y modd y caiff cwynion yng nghyswllt y cod ymddygiad eu rheoli. Mae hyn wedi arwain at gynnydd o 19% yn nifer yr achosion sy'n cymryd llai na chwe mis i benderfyniad gael ei wneud yn eu cylch.  Rydw i'n fodlon iawn ar y cam cadarnhaol hwn sy'n golygu bod yr achwynwyr a'r aelodau sydd wedi'u cyhuddo yn cael canlyniad prydlon, gan helpu i leihau straen ac anghyfleustra sy'n gysylltiedig ag ymchwiliad o'r fath.

Ar y cyfan, rydw i'n galonogol ein bod yn dechrau gweld cynghorau yn cymryd mwy o berchenogaeth dros gwynion lefel isel ac yn ceisio eu datrys ar lefel leol, sy'n golygu bod amser ac adnoddau fy swyddfa i yn cael eu defnyddio ar gyfer yr achosion mwyaf difrifol yn unig.  Rwy'n rhagweld y bydd hyn yn parhau i fod yn rhywbeth y byddwn ni'n canolbwyntio arno ac yn ei annog wrth fynd ymlaen.  Fodd bynnag, er fy mod yn cefnogi'r dull hwn yn llwyr, mae'n bwysig bod yr honiadau mwyaf difrifol o dorri'r Cod Ymddygiad yn cael eu cyfeirio ataf i ar gyfer ymchwiliad a, lle bo'n briodol, eu cyfeirio at y Pwyllgor Safonau neu at Banel Dyfarnu Cymru gan gofio mai nhw yn unig sydd â'r awdurdod i benderfynu ar achos o dorri'r cod a/neu gosbi.

Drwy barhau i weithio ar y cyd dros y flwyddyn i ddod, gobeithio y gallwn wella safonau mewn bywyd cyhoeddus, tra'n meithrin hyder y cyhoedd a hyrwyddo llywodraethu da yn ein sefydliadau democrataidd.



Nick Bennett
Ombwdsmon

# Crynodebau Achosion

Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ystyried cwynion bod aelodau awdurdodau lleol yng Nghymru wedi gweithredu'n groes i'r Cod Ymddygiad. Mae'r Ombwdsmon yn ymchwilio i gwynion o'r fath o dan ddarpariaethau Rhan III Deddf Llywodraeth Leol 2000 a'r Gorchmynion perthnasol a wneir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan y Ddeddf.

Pan fydd yr Ombwdsmon yn penderfynu y dylid ymchwilio i gŵyn, mae yna bedwar canfyddiad, sydd wedi'u nodi yn adran 69 Deddf Llywodraeth Leol 2000, y gall yr Ombwdsmon eu datgan:

(a) nad oes tystiolaeth bod unrhyw achos o weithredu'n groes i god ymddygiad yr awdurdod;

(b) nad oes angen cymryd unrhyw gamau mewn cysylltiad i'r materion a fu'n destun i'r ymchwiliad;

(c) bod angen cyfeirio'r mater i swyddog monitro'r awdurdod, i'w ystyried gan y pwyllgor safonau;

(d) bod angen cyfeirio'r mater i Lywydd Panel Dyfarnu Cymru ar gyfer dyfarniad gan dribiwnlys (mae hyn yn digwydd mewn achosion mwy difrifol fel arfer).

Yn amgylchiadau (c) a (d) uchod, mae'n ofynnol i'r Ombwdsmon gyflwyno adroddiad am yr ymchwiliad i'r pwyllgor safonau neu dribiwnlys Panel Dyfarnu Cymru, yna byddant hwy'n ystyried y dystiolaeth a ganfuwyd gan yr Ombwdsmon, ynghyd ag unrhyw amddiffyniad a gyflwynir gan yr aelod dan sylw. Hwy hefyd fydd yn penderfynu a oes achos o weithredu'n groes i'r Cod ai peidio, ac os oes, pa gosb (os o gwbl) y dylid ei chyflwyno.

Mae'r Llyfr Achosion Cod Ymddygiad yn cynnwys crynodebau o'r adroddiadau hynny lle cafwyd un o'r canfyddiadau wedi'u gosod allan uchod. Er hynny, yn achos canfyddiadau (c) a (d), bydd y Coflyfr Cod Ymddygiad ond yn cynnwys crynodebau'r achosion hynny y mae gwrandawiadau wedi'u cynnal gan y pwyllgor safonau neu Banel Dyfarnu Cymru, a bod canlyniad y gwrandawiad hwnnw'n hysbys. Mae'r rhifyn hyn yn adrodd ar y cyfnod Hydref i Rhagfyr 2016.

## Dim tystiolaeth o dor-amod

### Cyngor Sir Powys - Datgelu a chofrestru buddiannau
### Rhif achos 201506050 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2017

Roedd yr Ombwdsmon wedi ystyried cwyn bod aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Sir Powys ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau wrth ddod at aelod arall yn Lolfa Aelodau'r Cyngor ar 25 Ionawr 2016 i drafod materion y gallai fod â buddiant personol a rhagfarnus ynddynt.

Roedd fersiwn y ddau aelod o'r hyn oedd wedi digwydd yn wahanol a, gan nad oedd tystion eraill i'r sgwrs, roedd yn amhosib cysoni'r ddau adroddiad gwahanol. O gofio hyn, ni ystyriwyd ei bod er budd y cyhoedd i fynd ar drywydd y mater hwn ymhellach.

Roedd yr Ombwdsmon o'r farn nad oedd dim tystiolaeth bod y Cynghorydd wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

### Cyngor Tref Llangefni – Hybu Cydraddoldeb a Pharch
### Rhif achos 201603639 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2017

Roedd y Cynghorydd A wedi cwyno ei bod yn bosib bod y Cynghorydd B o Gyngor Tref Llangefni wedi torri'r Cod Ymddygiad oherwydd y ffordd roedd hi wedi ymddwyn tuag at Glerc y Cyngor.

Roedd yr Ombwdsmon wedi cynnal ymchwiliad i weld a oedd y Cynghorydd B wedi torri'r rhannau hynny o'r Cod sy'n ymwneud â pharch ac ystyriaeth, bwlio ac aflonyddu a dwyn anfri.

Canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim tystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd B wedi torri'r Cod yng nghyswllt dwy elfen o'r gŵyn. Canfu nad oedd dim angen gweithredu yng nghyswllt un elfen o'r gŵyn.

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - Hybu Cydraddoldeb a Pharch
### Rhif achos 201604869 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2017

Roedd Mr A yn honni bod aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymarfer ar gyfer aelodau wrth ddefnyddio ei ddylanwad fel cynghorydd yn amhriodol drwy ddweud wrth Wasanaethau Priffyrdd a Gofal Strydoedd y Cyngor i glirio lôn oedd wedi tyfu'n wyllt y tu ôl i eiddo Mr A. Roedd Mr A yn honni bod y Cynghorydd wedi penderfynu cynnwys y Gwasanaethau Gofal Strydoedd fel rhan o fendeta personol yn ei erbyn. Felly, roedd y Cynghorydd wedi camddefnyddio adnoddau'r Cyngor yn fwriadol at ddibenion preifat a blinderus.

Cafodd Goruchwyliwr Gwasanaeth Gofal Strydoedd y Cyngor ei gyfweld a chafwyd gwybodaeth gan y Cyngor ynghylch llythyr yr oedd wedi'i anfon at Mr A mewn ymateb i gŵyn ganddo am ymddygiad y Cynghorydd. Yn y llythyr, roedd y Cyngor wedi nodi bod ei ymchwiliad wedi sefydlu bod y Cynghorydd wedi rhoi pwysau amhriodol ar y Tîm Gofal Strydoedd i wneud y gwaith.

Canfu'r Ombwdsmon, yn groes i'r hyn roedd wedi'i nodi yn llythyr y Cyngor at Mr A, nad oedd dim tystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd wedi defnyddio unrhyw ddylanwad gormodol ar Dîm Gofal Strydoedd y Cyngor i wneud y gwaith dan sylw. Roedd yr Ombwdsmon hefyd wedi canfod nad oedd yr awgrym a wnaed yn y llythyr bod y Cynghorydd wedi ymddwyn yn amhriodol wedi'i seilio ar unrhyw

ymchwiliad ffurfiol nac ar unrhyw dystiolaeth o ymddygiad amhriodol roedd y Tîm Gofal Strydoedd wedi'i darparu. O ganlyniad, canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad.

# Nid oes angen gweithredu

### Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy - Gwrthrychedd a phriodoldeb
### Rhif achos 201602422 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2017

Yn ystod ymchwiliad arall, daeth i'r amlwg fod aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ("y Cynghorydd") wedi datgelu e-bost oedd yn cynnwys gwybodaeth bersonol a sensitif am yr awdur i Gynghorydd arall ac i aelod o'r cyhoedd. Penderfynodd yr Ombwdsmon ymchwilio i'r mater.

Yn ystod yr ymchwiliad, roedd awdur yr e-bost wedi cael ei chyfweld ac wedi dweud nad oedd wedi bwriadu rhannu'r e-bost. Roedd yr aelod o'r cyhoedd y datgelwyd yr e-bost iddo hefyd wedi cael ei gyfweld ac wedi cadarnhau ei fod wedi derbyn yr e-bost gan y Cynghorydd, a'i fod, gyda chaniatâd y Cynghorydd hwnnw, wedi'i basio ymlaen at Gynghorydd arall. Cadarnhaodd y Cynghorydd ei fod wedi rhannu'r e-bost ond dywedodd ei fod wedi gwneud hynny oherwydd ei fod yn poeni am les yr awdur ac nad oedd yn siŵr sut i ymdrin â'r mater. Ymddiheurodd y Cynghorydd nad oedd wedi ystyried a ddylid fod wedi diogelu'r data personol ond dywedodd ei fod dan gryn dipyn o straen adeg y digwyddiad.

Canfu'r ymchwiliad fod y dystiolaeth yn awgrymu bod achos o dorri'r Cod Ymddygiad wedi digwydd. Fodd bynnag, o gofio bod y Cynghorydd, i raddau, wedi gweithredu fel y gwnaeth oherwydd ei fod yn poeni am awdur yr e-bost, ac o gofio'r straen yr oedd oddi tano adeg y digwyddiad a'i fod wedi ymddiheuro am yr hyn a wnaeth, ni fyddai er budd y cyhoedd i gymryd unrhyw gamau pellach yn y cyswllt hwn.

### Cyngor Tref Aberystwyth – Hybu cydraddoldeb a pharch
### Rhif achos 201504876 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2017

Roedd Mr A wedi cwyno bod y Cynghorydd X o Gyngor Tref Aberystwyth ("y Cyngor") wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau ("y Cod") drwy ddweud wrth aelod o'r cyhoedd bod Mr A wedi cael ei atal dros dro. Roedd yr Ombwdsmon wedi cynnal ymchwiliad i weld a oedd y Cynghorydd X wedi torri'r rhannau hynny o'r Cod sy'n ymwneud â pharch ac ystyriaeth, datgelu gwybodaeth gyfrinachol a dwyn anfri.

Cafwyd gwybodaeth gan y Cyngor, Cyngor Sir Ceredigion a gan gorff cyhoeddus arall. Roedd Mr A, pedwar tyst arall a'r Cynghorydd X wedi cael eu cyfweld. Roedd y Cynghorydd X wedi cyfaddef ei fod wedi dweud wrth aelod o'r cyhoedd fod Mr A wedi cael ei atal dros dro.

Canfu'r Ombwdsmon fod tystiolaeth i awgrymu bod y Cynghorydd X wedi torri'r Cod drwy beidio â dangos parch ac ystyriaeth tuag at bobl eraill, drwy ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol a dwyn anfri ar ei swydd fel aelod ac ar y Cyngor. Serch hynny, penderfynodd na fyddai mynd ar drywydd y mater hwn er budd y cyhoedd ac nad oedd dim angen gweithredu pellach.

### Cyngor Cymuned y Mwmbwls - Datgelu a chofrestru buddiannau
### Rhif achos 201602616 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2017

Roedd Mr A wedi cwyno bod y Cynghorydd X, fel aelod o sefydliad elusennol, wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau ("y Cod") drwy fethu â datgelu buddiant personol a rhagfarnus pan gyflwynwyd anfonebau gan y sefydliad hwnnw am gostau storio i'r Cyngor ar gyfer eu talu. Roedd yr Ombwdsmon wedi ymchwilio i'r gŵyn. Roedd yr Ombwdsmon hefyd wedi ystyried a oedd y Cynghorydd X wedi defnyddio neu wedi ceisio defnyddio ei swydd yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais iddo'i hun neu i rywun arall drwy fethu â datgan ei fuddiant.

Ni chanfu'r Ombwdsmon ddim tystiolaeth fod yr aelod wedi cael mantais iddo'i hun nac i'r sefydliad elusennol. Roedd yr Ombwdsmon wedi ystyried, er bod buddiant personol wedi codi yn sgil aelodaeth y Cynghorydd X o'r sefydliad elusennol, nid oedd ei aelodaeth o'r sefydliad ar ei ben ei hun wedi achosi buddiant rhagfarnus.

Sefydlwyd nad oedd y Cynghorydd X yn dal swydd o awdurdod yn y sefydliad elusennol. Felly, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn y byddai mynd ar drywydd y mater er budd y cyhoedd, gan nad oedd yr aelod yn ennill dim yn bersonol drwy fethu datgan ei fuddiant. O ganlyniad, canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim angen gweithredu pellach yng nghyswllt y materion oedd yn destun yr ymchwiliad.

### Cyngor Cymuned y Mwmbwls - Datgelu a chofrestru buddiannau
### Rhif achos 201602617 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2017

Roedd Mr A wedi cwyno bod y Cynghorydd H, fel aelod o sefydliad elusennol, wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau ("y Cod") drwy fethu â datgelu buddiant personol a rhagfarnus pan gyflwynwyd anfonebau gan y sefydliad hwnnw am gostau storio i'r Cyngor ar gyfer eu talu. Roedd yr Ombwdsmon wedi ymchwilio i'r gŵyn. Roedd yr Ombwdsmon hefyd wedi ystyried a oedd y Cynghorydd H wedi defnyddio neu wedi ceisio defnyddio ei swydd yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais iddo'i hun neu i rywun arall drwy fethu â datgan ei fuddiant.

Ni chanfu'r Ombwdsmon ddim tystiolaeth fod yr aelod wedi cael mantais iddo'i hun nac i'r sefydliad elusennol. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod swydd y Cynghorydd H yn y sefydliad elusennol wedi arwain at fuddiant personol a buddiant rhagfarnus.

Sefydlwyd bod y Cynghorydd H yn dal swydd uchel yn y sefydliad elusennol. Nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn y byddai mynd ar drywydd y mater er budd y cyhoedd, gan nad oedd yr aelod yn ennill dim yn bersonol drwy fethu datgan ei fuddiant, a'i fod bellach wedi ymddiheuro ac wedi datgan buddiant o'r fath yn ôl-weithredol. O ganlyniad, canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim angen gweithredu pellach yng nghyswllt y materion oedd yn destun yr ymchwiliad.

### Cyngor Cymuned y Mwmbwls - Datgelu buddiannau
### Rhif achos 201602618 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2017

Roedd Mr A wedi cwyno bod y Cynghorydd F, fel aelod o sefydliad elusennol, wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau ("y Cod") drwy fethu â datgelu buddiant personol a rhagfarnus pan gyflwynwyd anfonebau gan y sefydliad hwnnw am gostau storio i'r Cyngor ar gyfer eu talu. Roedd yr Ombwdsmon wedi ymchwilio i'r gŵyn. Roedd yr Ombwdsmon hefyd wedi ystyried a oedd y Cynghorydd F wedi defnyddio neu wedi ceisio defnyddio ei swydd yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais iddo'i hun neu i rywun arall drwy fethu â datgan ei fuddiant.

Ni chanfu'r Ombwdsmon ddim tystiolaeth fod yr aelod wedi cael mantais iddo'i hun nac i'r sefydliad elusennol. Roedd yr Ombwdsmon o'r farn bod swydd y Cynghorydd F yn y sefydliad elusennol wedi arwain at fuddiant personol a buddiant rhagfarnus.

Sefydlwyd bod y Cynghorydd F yn dal swydd uchel yn y sefydliad elusennol. Nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn y byddai mynd ar drywydd y mater er budd y cyhoedd, gan nad oedd yr aelod yn ennill dim yn bersonol drwy fethu datgan ei fuddiant, a'i fod bellach wedi derbyn bod ganddo fuddiant. O ganlyniad, canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim angen gweithredu pellach yng nghyswllt y materion oedd yn destun yr ymchwiliad.

### Cyngor Cymuned y Mwmbwls - Datgelu buddiannau
### Rhif achos 201602619 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2017

Roedd Mr A wedi cwyno bod y Cynghorydd Z, fel aelod o sefydliad elusennol, wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau ("y Cod") drwy fethu â datgelu buddiant personol a rhagfarnus pan gyflwynwyd anfonebau gan y sefydliad hwnnw am gostau storio i'r Cyngor ar gyfer eu talu.  Roedd yr Ombwdsmon wedi ymchwilio i'r gŵyn. Roedd yr Ombwdsmon hefyd wedi ystyried a oedd y Cynghorydd Z wedi defnyddio neu wedi ceisio defnyddio ei swydd yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais iddo'i hun neu i rywun arall drwy fethu â datgan ei fuddiant.

Ni chanfu'r Ombwdsmon ddim tystiolaeth fod yr aelod wedi cael mantais iddo'i hun nac i'r sefydliad elusennol. Roedd yr Ombwdsmon wedi ystyried, er bod buddiant personol wedi codi yn sgil aelodaeth y Cynghorydd Z o'r sefydliad elusennol, nid oedd ei aelodaeth o'r sefydliad ar ei ben ei hun wedi achosi buddiant rhagfarnus.

Sefydlwyd nad oedd y Cynghorydd Z yn dal swydd o awdurdod yn y sefydliad elusennol.  Felly, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn y byddai mynd ar drywydd y mater er budd y cyhoedd, gan nad oedd yr aelod yn ennill dim yn bersonol drwy fethu datgan ei fuddiant.  O ganlyniad, canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim angen gweithredu pellach yng nghyswllt y materion oedd yn destun yr ymchwiliad.

### Cyngor Cymuned y Mwmbwls - Datgelu buddiannau
### Rhif achos 201602620 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2017

Roedd Mr A wedi cwyno bod y Cynghorydd M, fel aelod o sefydliad elusennol, wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau ("y Cod") drwy fethu â datgelu buddiant personol a rhagfarnus pan gyflwynwyd anfonebau gan y sefydliad hwnnw am gostau storio i'r Cyngor ar gyfer eu talu. Roedd yr Ombwdsmon wedi ymchwilio i'r gŵyn. Roedd yr Ombwdsmon hefyd wedi ystyried a oedd y Cynghorydd M wedi defnyddio neu wedi ceisio defnyddio ei swydd yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais iddo'i hun neu i rywun arall drwy fethu â datgan ei fuddiant.

Ni chanfu'r Ombwdsmon ddim tystiolaeth fod yr aelod wedi cael mantais iddo'i hun nac i'r sefydliad elusennol. Roedd yr Ombwdsmon wedi ystyried, er bod buddiant personol wedi codi yn sgil aelodaeth y Cynghorydd M o'r sefydliad elusennol, nid oedd ei aelodaeth o'r sefydliad ar ei ben ei hun wedi achosi buddiant rhagfarnus.

Sefydlwyd nad oedd y Cynghorydd M yn dal swydd o awdurdod yn y sefydliad elusennol.  Felly, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn y byddai mynd ar drywydd y mater er budd y cyhoedd, gan nad oedd yr aelod yn ennill dim yn bersonol drwy fethu datgan ei fuddiant.  O ganlyniad, canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim angen gweithredu pellach yng nghyswllt y materion oedd yn destun yr ymchwiliad.

### Cyngor Cymuned y Mwmbwls - Datgelu buddiannau
### Rhif achos 201602621 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2017

Roedd Mr A wedi cwyno bod y Cynghorydd G, fel aelod o sefydliad elusennol, wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau ("y Cod") drwy fethu â datgelu buddiant personol a rhagfarnus pan gyflwynwyd anfonebau gan y sefydliad hwnnw am gostau storio i'r Cyngor ar gyfer eu talu.  Roedd yr Ombwdsmon wedi ymchwilio i'r gŵyn. Roedd yr Ombwdsmon hefyd wedi ystyried a oedd y Cynghorydd G wedi defnyddio neu wedi ceisio defnyddio ei swydd yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais iddo'i hun neu i rywun arall drwy fethu â datgan ei fuddiant.

Ni chanfu'r Ombwdsmon ddim tystiolaeth fod yr aelod wedi cael mantais iddo'i hun nac i'r sefydliad elusennol. Roedd yr Ombwdsmon wedi ystyried, er bod buddiant personol wedi codi yn sgil aelodaeth y Cynghorydd G o'r sefydliad elusennol, nid oedd ei aelodaeth o'r sefydliad ar ei ben ei hun wedi achosi buddiant rhagfarnus.

Sefydlwyd nad oedd y Cynghorydd G yn dal swydd o awdurdod yn y sefydliad elusennol. Felly, nid oedd yr Ombwdsmon o'r farn y byddai mynd ar drywydd y mater er budd y cyhoedd, gan nad oedd yr aelod yn ennill dim yn bersonol drwy fethu datgan ei fuddiant. O ganlyniad, canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim angen gweithredu pellach yng nghyswllt y materion oedd yn destun yr ymchwiliad.

### Cyngor Tref Prestatyn - Datgelu a chofrestru buddiannau
### Rhif achos 201605412 – Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2017

Roedd yr Ombwdsmon wedi ystyried cwyn bod aelod o Gyngor Tref Prestatyn ("y Cynghorydd") wedi torri'r Cod Ymddygiad ar gyfer aelodau etholedig drwy fethu datgelu buddiant personol a rhagfarnus mewn dau gyfarfod mewn perthynas â chais cynllunio.

Canfu'r Ombwdsmon fod gan y Cynghorydd fuddiant personol a rhagfarnus yn y cais gan fod y datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio ar fynediad i'w fusnes. Nid oedd dim tystiolaeth fod y Cynghorydd wedi datgan buddiant yn unrhyw rai o'r cyfarfodydd. Roedd wedi mynegi ei bryder ynghylch mynediad i mewn ac allan o'i fusnes yn ystod yr ail gyfarfod.

Wrth ddod i benderfyniad ynghylch y canfyddiad priodol, roedd yr Ombwdsmon wedi ystyried effaith yr hyn roedd y Cynghorydd wedi'i wneud. Nid oedd wedi'i argyhoeddi bod y Cynghorydd wedi ceisio dylanwadu ar benderfyniad drwy'r hyn a wnaeth. Nododd hefyd mai dim ond ystyried a oedd am gyflwyno unrhyw sylwadau ar y cais yr oedd y Cyngor Tref. Nid oedd yn penderfynu a ddylid cymeradwyo'r cais. Felly, ym marn yr Ombwdsmon, roedd yr hyn a wnaeth y Cynghorydd o bwys cyfyngedig ac ni fyddai er budd y cyhoedd i fynd ar drywydd y mater ymhellach.

O dan adran 69(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 2000, canfu'r Ombwdsmon nad oedd dim angen gweithredu pellach yng nghyswllt y materion oedd yn destun yr ymchwiliad. Fodd bynnag, cynghorwyd y Cynghorydd i ystyried yr hyn a wnaeth ac i fynychu hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad

# Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau

## Cyngor Sir Powys - Gwrthrychedd a phriodoldeb
## Rhif yr Achos 201501199 – Adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2016

Ymchwiliodd yr Ombwdsmon i gŵyn y gallai aelod ("y Cynghorydd") o Gyngor Powys ("y Cyngor") fod wedi torri Cod Ymddygiad ei awdurdod.  Cododd y gŵyn mewn perthynas â gohebiaeth a anfonwyd ganddo a oedd yn portreadu cynnwys Gwrandawiad ar Apêl Cwyn Cyflogaeth mewn modd anghywir ac annheg.

Canfu'r Ombwdsmon gan fod y Cynghorydd wedi anfon yr ohebiaeth mewn rhinwedd breifat nad oedd tystiolaeth ei fod wedi torri'r adran o'r Cod a oedd yn ymwneud â dangos parch ac ystyriaeth i bobl eraill. Fodd bynnag, canfu'r Ombwdsmon dystiolaeth y gallai'r Cynghorydd fod wedi torri'r cod drwy ddwyn anfri ar ei swyddfa a chyfeiriodd y mater er mwyn i Bwyllgor Safonau'r Cyngor ei ystyried.

Ar 2 Tachwedd 2016, canfu Pwyllgor Safonau'r Cyngor fod y Cynghorydd wedi torri'r Cod.  Cafodd ei wahardd rhag bod yn Gynghorydd am bum mis.

Apeliodd y Cynghorydd yn erbyn y penderfyniad hwn i Banel Dyfarnu Cymru ("y Panel").  Ar 17 Mawrth 2017, canfu'r Panel fod y Cynghorydd wedi torri'r Cod.  Cyfeiriodd y Panel y Cynghorydd at Bwyllgor Safonau'r Cyngor gydag argymhelliad y dylai'r Cynghorydd gael ei wahardd dros dro am gyfnod o dri mis.

## Cyfeiriwyd at Banel Dyfarnu Cymru

Nid oes crynodebau yn gysylltiedig â'r canfyddiad hwn

## Mwy o wybodaeth

Rydym yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau neu adborth sydd gennych chi am Coflyfr y Cod Ymddygiad. Yn ogystal, byddem yn fodlon ateb unrhyw ymholiadau sydd gennych ynghylch ei gynnwys. Mae modd anfon unrhyw ohebiaeth o'r fath mewn neges e-bost at Matthew.Aplin@ombudsman-wales.org.uk neu Lucy.John@ombudsman-wales.org.uk, neu i'r cyfeiriad canlynol:

Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
CF35 5LJ

Ffôn 01656 644200
Ffacs 01656 641199

e-bost holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk (ymholiadau cyffredinol)

Dilynwch ni ar Twitter: @OmbudsmanWales

Ceir rhagor o wybodaeth am y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar ein gwefan www.ombwdsmon-cymru.org.uk